


**Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol Medi 2025**

**Atal Trais**

- **Canllaw Arfau**
  Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno Canllaw newydd ar Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysgol ledled Caerdydd i helpu athrawon a staff i ddelio'n hyderus ac yn effeithiol â sefyllfaoedd lle mae arf yn bresennol neu'n cael ei amau ar safle'r ysgol.
  https://www.ysgolglanmorfa.co.uk/attachments/download.asp?file=295&type=pdf
- **Chwilio disgyblion yn ddiogel** – Gall yr ysgol hon ddefnyddio Ffyn Chwilio i gynnal chwiliad ar ddisgybl neu fag lle mae gwybodaeth ganddynt y gall fod y disgybl yn meddu ar arf. Os yw eich plentyn wedi cael ei chwilio, bydd aelod o staff yr ysgol yn cysylltu â chi ac efallai y gofynnir i chi ddod i'r ysgol i gasglu eich plentyn. Byddwch yn ymwybodol y bydd yr Heddlu yn cael gwybod os bydd arf yn cael ei ddarganfod.
- **Cyfarfodydd Adolygu Digwyddiad** - os yw eich plentyn ynghlwm â digwyddiad sy'n ymwneud ag arf lle mai ef yw'r tramgwyddwr, bydd Cyfarfod Adolygu Digwyddiad yn cael ei alw dim llai na 5 diwrnod ysgol ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd. Bydd y cyfarfod hwn yn caniatáu i'ch plentyn esbonio pam y gwnaethant weithredu fel y gwnaethant ac yn caniatáu i staff nodi mecanweithiau cymorth a chynllun diogelwch priodol i gadw staff a disgyblion yn ddiogel yn y dyfodol neu os oes angen, i drafod darparwr addysg amgen. Os yw eich plentyn ar hyn o bryd yn derbyn cymorth gan unrhyw wasanaethau eraill e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Ieuenctid neu Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, byddan nhw hefyd yn cael eu gwahodd i'r Cyfarfod Adolygu Digwyddiad i'ch cefnogi ac eiriol ar ran eich plentyn. Disgwylir i riant/gwarcheidwad fynychu cyfarfod adolygu digwyddiad gyda'u plentyn os daw cais gan yr ysgol.
- **Gweithdrefnau Cloi Mewn Argyfwng** – Os bydd yn rhaid i'r ysgol fynd i sefyllfa gloi mewn argyfwng, bydd hyn yn cael ei gyfathrebu'n glir i rieni trwy **GroupEd**. Mae hyn er mwyn osgoi dryswch ac i gadw'r gymuned gyfan yn ddiogel. Yn dibynnu ar y math a difrifoldeb y digwyddiad, efallai y bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfarwyddyd i beidio â chasglu eu plant o'r ysgol, gan y gallai hyn eu rhoi nhw a'u plentyn mewn perygl. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu rhyddhau i rieni yn ystod cloi mewn argyfwng. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfarwyddyd i beidio â ffonio ysgol gan y gallai hyn amharu ar linellau ffôn brys. Os bydd diwedd y dydd yn cael ei ymestyn oherwydd y sefyllfa glo, bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu a byddant yn derbyn gwybodaeth am yr amser a'r lleoliad lle gellir mynd i gasglu dysgwyr. Bydd llythyr at rieni yn cael ei anfon adref ar y diwrnod agosaf posibl ar ôl unrhyw ddigwyddiad difrifol i roi gwybod i rieni/gofalwyr am gyd-destun y cloi mewn argyfwng.